**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/0619/21

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

9 Tachwedd 2021

Annwyl Paul,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar**

Diolch yn fawr ichi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi yn gofyn am ragor o wybodaeth am y rhesymau yn y Memorandwm sy'n esbonio pam mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Cymal 5 Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar ("y Bil"). Mae'r Bil yn ymdrin â sefydlu Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar.

Mae Cymal 1 yn sefydlu'r Asiantaeth ac am y rhesymau a roddir ym mharagraff 7.2 y Memorandwm, gallai'r Senedd ei hun ei sefydlu. Yr hyn y mae Cymal 5 yn ei wneud yw rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol allu rhoi cyfarwyddyd i'r Asiantaeth a'i gorfodi i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir. Pe bai'r Senedd yn creu Asiantaeth, gellid rhoi'r un pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Asiantaeth am y rhesymau a nodir yn y Bil.

Mae Cymal 5 felly yn deddfu i roi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol allu rhoi cyfarwyddyd ac i orfodi cydymffurfiaeth. Nid yw'n deddfu ynghylch diogelwch y wlad. Diogelwch y wlad yw'r rheswm dros roi cyfarwyddydau yn hytrach na phwrpas y cymal ei hun.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.